Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Gweithdy amrywiaeth: Cynlluniau Gweithredu Amrywiaeth

Mynychwyr

Kit Stoner	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Joe Nunez-Mino	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Clare Dinham	Buglife
Claire Holmes	Cymdeithas Eryri
Maria Wilding	Llais y Goedwig
Eleni Morus	RSPB Cymru
Roger Thomas	Y Cyswllt
Karen Whitfield	Y Cyswllt
Susan Evans	Y Cyswllt
Liz Smith	Y Cyswllt

Arweiniwyd y sesiwn hon gan Ele Hicks, Rheolwr Polisi, Ymwneud ac Ymchwil Diverse Cymru.

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Cyswllt

Defnyddiodd Ele Gynllun Gweithredu Amrywiaeth y Cyswllt, a ddatblygwyd fel rhan o'r project hwn, fel astudiaeth achos ar sut i gynllunio cynllun trefnwriaethol. Edrychwyd ar y cynllun gennym mewn manylder yn ogystal â pham fod pob adran wedi ei chynnwys.

Ymysg y cynigion ar greu cynllun effeithiol mae:

- Edrych ar yr holl waith a wneir gan y corff gyda staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a buddiolwyr – defnyddiwch hynny i lunio eich cynllun gweithredu eich hun ac ystyried y meysydd y mae angen i chi eu eu trafod
- Strwythuro'r cynllun i ganolbwyntio ar staff, gwirfoddolwr, a pholisïau mewnol ar wahân i waith y corff gyda buddiolwyr allanol

- Nodi pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd yn bwysig i'ch corff/mudiad chi a beth ydych chi eisiau ei gyflawni
- Defnyddio tystiolaeth meintiol a data os ydy'r rhain ar gael, ond cofiwch bod data ansoddol (straeon, profiadau, adborth, grwpiau ymwneud ayyb) cyn bwysiced â data meintiol. Dylech gynnwys eich holl staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr wrth ddatblygu eich cynllun; gallwch ei gynhyrchu ar y cyd os yn bosib.
- Datblygu perthnasau: fe all cymorth arbenigol fod yn ddefnyddiol wrth ddrafftio, ond siaradwch hefyd gyda eich buddiolwyr a chyrff allanol sy'n cynrychioli neu'n gweithio gyda phobl amrywiol ledled pob nodwedd a thu hwnt.
- Dylai'r cynllun drafod polisi, ymarfer a threfnweithiau. Dylid ystyried sut mae'r cynllun yn gweithio'n ymarferol a sut fydd profiadau pobl o bethau yn gwahaniaethu, yn hytrach na chynnwys y polisïau'n unig.
- Mae sut y byddwch yn cyfathrebu'r cynllun a'r gweithrediadau, yn ogystal â phob agwedd o'ch cyfathrebu a'ch gwybodaeth, yn hanfodol.
- Sicrhewch bod eich cynllun gweithredu'n cynnwys gweithrediadau a chanlyniadau eglur a cherrig milltir neu dargedau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cadarnhau dysgu

Cynigiodd y sesiwn hon gyfle hefyd am gwestiynau ar bynciau nad ydyn nhw wedi eu trafod mewn sesiynau blaenorol neu gwestiynau sy'n dilyn o'r sesiynau hynny. Nodir y rhain isod.

1. **Sut ydych chi'n gwybod pan fydd eich corff/mudiad yn amrywiol?**

Proses barhaus yw gwella amrywiaeth, nid pen y daith. Y ffordd orau o wybod eich bod yn gwella yw drwy barhau i adolygu eich polisïau, prosesau a phroject, a siarad gyda buddiolwyr a chymunedau yr ydych yn creu perthnasau gyda nhw hefyd. Dylech fonitro recriwtio ac os y gwelwch nad ydy cymunedau amrywiol yn ymgeisio'n rheolaidd, neu'n sicrhau cyfweliadau, yna adolygwch pam fod hynny'n digwydd a gwnewch newidiadau i'ch prosesau pe bai angen.

2. **Sut ydych chi'n rheoli anhysbysrwydd a monitro mewn perthynas â ffurflenni cydraddoldeb ar gyfer recriwtio os ydy eich corff/mudiad yn fach iawn, heb staff ychwanegol a all hidlo gwybodaeth i gyfwelwyr?**

Dylid clustnodi'r un rhif i ffurflenni cais a ffurflenni monitro a dylid ffeilio'r ffurflenni monitro a pheidio â'u darllen nes bydd y broses recriwtio wedi ei chwblhau. Bryd hynny gallwch edrych ar y ffurflenni ar gyfer eu dadansoddi. Os ydy eich corff/mudiad yn fach iawn ac os nad ydych chi'n recriwtio'n aml iawn, efallai y byddai'n well casglu ffurflenni o ddwy neu dair o brosesau recriwtio i ddarparu dadansoddiad mwy arwyddocaol.

3. **Sut allwch chi ddangos cefnogaeth i grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn y ffordd iawn, pan nad yw eich corff/mudiad fel arfer yn gysylltiedig â thrin negeseuon fel hyn?**

Mae cynghreiriaid yn bwysig ac ni ddylai cyrff/mudiadau bryderu am ddangos eu cefnogaeth o ganlyniad i ddiffyg arbenigedd ar nodwedd neu grŵp penodol. Fodd bynnag, mae rhai pethau i'w hystyried:

- Os yn ail-drydar i ddangos cefnogaeth, byddwch yn sicr o'ch ffynhonnell gan fod rhai cyrff/mudiadau sy'n honni eu bod yn cefnogi achosion amrywiol yn gallu bod yn hollol groes, ac efallai nad ydy ffynonellau eraill yn rhai y gallwch ymddiried ynddyn nhw neu maen nhw'n arddangos anwybodaeth.
- Mae dangos cefnogaeth yn haws ei egluro yn allanol os oes gennych Strategaeth Amrywiaeth neu Gynllun Gweithredu y gallwch ddangos ei fod yn berthnasol i'ch cyfathrebiadau, neu os ydych yn gweithio gyda chymunedau penodol eisoes.
- Mae cysylltu eich cefnogaeth, lle bod hynny'n bosibl, gyda phwrpas, gweithgareddau neu chennad eich corff/mudiad hefyd yn bwysig.
- Mae cysylltau amlwg rhwng yr amgylchedd a chydraddoldeb, yn cynnwys y ffaith fod y ddau yn effeithio ar bawb ac yn bwysig i bawb.

4. **Sut allwn ni grynhoi yr hyn a ddysgwyd wrth weithio o bell wrth i fywyd ddechrau dod yn fwy arferol unwaith eto, er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn hygyrch i bawb?**

Mae'r pandemig wedi ein dysgu bod modd i ni i gyd weithio'n fwy hyblyg ac mae cyfarfodydd o bell bellach wedi dod yn rhywbeth arferol. Fe all cyfarfodydd o bell weithio'n well i rai pobl gydag anableddau a gofalwyr ac maen nhw'n gallu cwtogi ar amser teithio, costau ac allyriadau o garbon. Ar y llaw arall, mae cyfarfodydd o bell yn anhygyrch i rai pobl gydag anableddau. Fodd bynnag, mae cyswllt pobl hefyd yn bwysig. Yn y dyfodol, mae cyfarfodydd yn debygol o fod yn gymysgedd o gyfarfodydd o bell, wyneb yn wyneb, neu hybrid, lle mae rhai pobl yn bresennol yn gorfforol, ac eraill yn deialu i mewn o bell. Mae cyfarfodydd hybrid yn angenrheidiol weithiau, ond maen nhw'n tueddu i fod yn anfanteisiol i'r sawl nad ydyn nhw "yn yr ystafell". Dim ond pan mae ail hwylusydd yn bresennol yn yr ystafell sydd wedi ei neilltuo i'r sawl sy'n mynychu'r cyfarfod o bell, sy'n gallu eu tywys i mewn i'r cyfarfod, y dylid defnyddio cyfarfodydd hybrid. Mae'n bwysig bod yn glir pam fod pobl yn dymuno cyfarfod wrth ddefnyddio fformat penodol ac na fydd y fformat a ddewisir yn rhwystr diangen i rai gael mynediad.